Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

27 Awst 2021

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Gobeithio eich bod yn ddiogel ac yn iach ac wedi mwynhau egwyl da dros yr haf. Bydd y plant a'r bobl ifanc yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Iau 2 Medi. Byddwch yn gwybod bod Cymru bellach ar Rybudd Lefel Sero, sy'n golygu bod llawer o bethau wedi mynd yn ôl i'r arfer. Fodd bynnag, mae Covid yn dal o'n cwmpas, ac rydym wedi gweld cynnydd yn yr achosion dros gyfnod yr haf, yn enwedig yn yr ystod oed 10-19.

Byddwn felly'n wyliadwrus yn y ffordd y byddwn yn dychwelyd i'r ysgol wrth i ni symud tuag at ddiwrnod ysgol mwy arferol, gobeithio, erbyn 20 Medi 2021. Fodd bynnag, mae yna ambell newid i'n canllawiau a fydd yn digwydd ar unwaith o ddydd Iau 2 Medi 2021. Sef:

- Dim dechrau a diwedd gwasgarog i'r diwrnod ysgol. Bydd yr ysgolion yn dechrau ac yn gorffen ar yr adegau arferol
- Bydd disgwyl i fyfyrwyr wisgo gwisg ysgol yn unol â pholisi'r ysgol honno
- Bydd clybiau brecwast ac ar ôl ysgol yn rhedeg

Ar wahân i'r newidiadau hyn, bydd mesurau'n parhau i fod ar waith yn yr ysgol ac yn cael eu tynnu'n ôl yn raddol i gyd-fynd â'r asesiad risg ymhob ysgol. Mae hyn yn golygu y bydd dychwelyd i'r ysgol yn edrych yn debyg iawn i'r hyn ydoedd cyn y gwyliau am yr ychydig wythnosau cyntaf, gyda gorchuddion wyneb yn cael eu defnyddio, a grwpiau cyswllt cyfyngedig. Yna byddwn yn ceisio lleihau'r mesurau hyn dros yr ychydig wythnosau cyntaf yn unol â'r fframwaith cenedlaethol newydd i ysgolion y bydd disgwyl iddo fod ar waith ymhob ysgol erbyn 20 Medi 2021.

Rydym hefyd yn annog staff a holl ddisgyblion blwyddyn 7 ac uwch i gael profion LFD ddwywaith yr wythnos ar ddydd Sul a dydd Mercher. Mae'r profion hyn ar gael mewn llyfrgelloedd a fferyllfeydd ledled Powys. Mae disgwyliad hefyd bod trefniadau hylendid da megis golchi dwylo'n rheolaidd yn gael eu gweithredu yn ystod y dydd yn achos yr holl staff a'r disgyblion, boed hynny gartref neu yn yr ysgol. Bydd hyn yn atal lledaeniad y feirws.

Diolchwn i chi am eich cydweithrediad hyd yma, a gobeithiwn trwy fod yn ofalus fel hyn, y bydd plant a phobl ifanc yn gallu aros yn yr ysgol drwy dymor yr hydref, a gall pethau ddychwelyd i'r arfer yn eich hysgolion cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

Cyng Phyl Davies
Aelod Cabinet ar faterion Addysg ac Eiddo

Powys County Council
County Hall
Llandrindod Wells
Powys
LD1 5LG

27 August 2021

Dear Parents / Carers,

I hope that you are safe and well and have enjoyed a good break over the summer. The children and young people will be returning to school on Thursday 2 September. You will be aware that Wales is now at Alert Level Zero which means that many things have returned to normal. However, Covid is still around, and we have seen a rise in cases over the summer period particularly in the age range of 10-19.

We will therefore be taking a cautious approach in our return to school as we transition to a more normal school day by, we hope, 20 September 2021. However, there are some immediate changes to our guidance for Thursday 2 September 2021. They are:

- No staggered start and end to the school day. School opening and closing times will operate as normal
- Uniform will be expected to be worn in line with school policy
- Breakfast clubs and after school clubs will be operating

Other than these changes, measures in schools will remain in place and will be reduced cautiously in line with the risk assessment for each school. This means that for the first few weeks, the return to school will look much the same as before the holiday, with the use of face coverings and limited contact groups. We will then look to reduce these measures over the first few weeks in line with the new national framework for schools which will be expected to be in place in all schools by 20 September 2021.

We also strongly encourage all staff and all pupils from year 7 upwards to take LFD tests twice a week on a Sunday and Wednesday. These tests are available at libraries and pharmacies throughout Powys. It is also an expectation that there are good hygiene regimes such as handwashing regularly throughout the day for all staff and pupils both at home and at school. This will help prevent the spread of the virus.

We thank you for your co-operation to date and hope that by taking this cautious approach, children and young people can remain in school throughout the autumn term and things can be back to normal in our schools as soon as possible.

Yours sincerely,

Cllr Phyl Davies
Cabinet Member for Education and Property